WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Cyhoeddwyd: Ionawr 2012
Cyfeirnod: 109A2012



# Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru am waith Swyddfa Archwilio Cymru.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth y Cynulliad, y cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig; Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Archwilwyr penodedig yr Archwilydd Cyffredinol sy'n gyfrifol am archwilio'r rhan fwyaf o arian cyhoeddus sy'n cael ei wario yng Nghymru bob blwyddyn gan gynnwys £15 biliwn a drosglwyddir i Gymru bob blwyddyn trwy bleidlais gan Senedd San Steffan. Mae Llywodraeth Cymru yn trosglwyddo bron i £5.5 biliwn o'r arian hwn i lywodraeth leol, trwy gyfrwng grantiau cyffredinol a phenodol. Mae llywodraeth leol, yn ei thro, yn codi £2.1 biliwn arall trwy'r dreth gyngor a threthi busnes.

Yn ogystal â chyflawni archwiliadau ariannol, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.Nod Swyddfa Archwilio Cymru yw gofalu bod arian cyhoeddus yn cyfrif, trwy hyrwyddo gwelliannau, fel bod pobl Cymru yn elwa ar wasanaethau cyhoeddus atebol, wedi'u rheoli'n dda, sy'n cynnig y gwerth am arian gorau posibl. Mae hefyd yn ymrwymo i nodi a rhannu enghreifftiau o arfer da ledled sector cyhoeddus Cymru.

Cafodd Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, gymorth gan John Roberts a chydweithwyr dan gyfarwyddyd Alan Morris i gynnal yr Asesiad Gwella a pharatoi'r adroddiad hwn.

# Cynnwys


**Crynodeb a chynigion ar gyfer gwella** 4

**Adroddiad manwl**

Cyflwyniad 6

Mae trefniadau manylach a mesurau llwyddiant mwy ystyrlon yr Awdurdod yn debygol o wella ei allu i sicrhau gwelliannau 7

Mae'r Awdurdod wedi gwella ei fframwaith cynllunio, yn canolbwyntio mwy ar gwsmeriaid ac wedi cyflwyno strwythur cliriach ar gyfer ei gyfarwyddiaethau 8

Mae'r Awdurdod yn gwella'r modd y mae'n helpu pobl i fwynhau a deall y Parc ond, wrth wella'r ffordd y mae'n gofalu am y Parc, nid yw bob amser yn canolbwyntio'n glir ar y meysydd hynny a nodwyd fel rhai pwysig 11

Er bod yr Awdurdod yn gwella'r ffordd y mae'n gofalu am y Parc, nid oes digon o eglurder ynglŷn â chynnydd mewn perthynas â rhai o'i flaenoriaethau 11

Mae'r Awdurdod yn cyflwyno gwelliannau mesuradwy i'r modd y mae'n helpu pobl i fwynhau a deall y Parc 13

Mae'r Awdurdod wedi gwella ei ddull o werthuso ac adrodd am ei berfformiad ac mae'n bwriadu gwneud gwelliannau pellach 16

**Atodiadau**

**Atodiad 1**
Statws yr adroddiad hwn 18

**Atodiad 2**
Gwybodaeth ddefnyddiol am Barc Cenedlaethol Eryri a'r Awdurdod 19

**Atodiad 3**
Llythyr Archwilio Blynyddol i Aelodau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri 20

**Atodiad 4**
Amcanion gwella a hunanasesiad Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri 22

# Adroddiad cryno

1 Bob blwyddyn, mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad ar ba mor dda mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol Cymru'n cynllunio ar gyfer gwella a darparu eu gwasanaethau. Gan ystyried gwaith Swyddfa Archwilio Cymru a'r arolygiaethau perthnasol, mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno darlun o welliant dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r adroddiad wedi'i rannu'n dair brif adran, sy'n cwmpasu gwaith cynllunio, darparu a gwerthuso gwelliannau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (yr Awdurdod).

2 Ar y cyfan, daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad bod trefniadau manylach a mesurau llwyddiant mwy ystyrlon yr Awdurdod yn debygol o wella ei allu i sicrhau gwelliannau.

3 Mae'r Awdurdod wedi gwella ei fframwaith cynllunio, yn canolbwyntio mwy ar gwsmeriaid ac wedi cyflwyno strwythur cliriach ar gyfer ei gyfarwyddiaethau.

4 Mae'r Awdurdod hefyd wedi gwella'r modd y mae'n helpu pobl i fwynhau a deall y Parc ond, wrth wella'r ffordd y mae'n gofalu am y Parc, nid yw bob amser yn canolbwyntio'n glir ar y meysydd hynny a nodwyd fel rhai pwysig.

- Er bod yr Awdurdod yn gwella'r ffordd y mae'n gofalu am y Parc, nid oes digon o eglurder ynglŷn â chynnydd mewn perthynas â rhai o'i flaenoriaethau.

  Mae sawl agwedd ar y Parc wedi gwella ond nid yw'r Awdurdod wedi bod yn glir ynglŷn â'r hyn a olygir gan 'nodweddion arbennig' y Parc na gwasanaeth cynllunio 'ymatebol, cyson o ansawdd uchel'. Er bod gwerth am arian yn elfen allweddol o amcan yr Awdurdod ar gyfer gwella'r gwasanaeth cynllunio, nid yw'r Awdurdod wedi defnyddio'r wybodaeth sydd ar gael i asesu a yw hyn wedi'i gyflawni.

- Mae'r Awdurdod yn cyflwyno gwelliannau mesuradwy i'r modd y mae'n helpu pobl i fwynhau a deall y Parc.

  Mae'r Awdurdod wedi cydweithio i sicrhau bod pobl o wahanol alluoedd yn gallu cael mynediad haws, mwy diogel ac ehangach o fewn y Parc ac i'r Parc. Mae adborth i'r Awdurdod yn awgrymu bod pobl yn cael eu hysbrydoli gan y gwaith mae'r gwasanaeth addysg yn ei wneud, a'u bod yn gynyddol fodlon gyda safon y gwasanaeth hwnnw.

5 Yn olaf, mae'r adroddiad yn ymateb i asesiad yr Awdurdod o'i berfformiad a'i drefniadau ei hun. Daethom i'r casgliad bod yr Awdurdod wedi gwella ei ddull o werthuso ac adrodd am ei berfformiad a'i fod yn bwriadu gwneud gwelliannau pellach. Mae adroddiadau cynnydd rheolaidd sy'n canolbwyntio ar ei flaenoriaethau, ynghyd â newidiadau i drefniadau craffu, yn darparu dull gwerthfawr y gall yr Awdurdod ei ddefnyddio i werthuso ac adrodd am ei berfformiad. Mae'n debygol y bydd y dull hwn yn cryfhau ar ôl i'r Awdurdod gasglu ei wybodaeth llinell sylfaen am fesurau llwyddiant.

# Cynigion ar gyfer gwella

6 Nid ydym wedi gwneud unrhyw argymhellion statudol yn yr adroddiad hwn. Er hynny, cyflwynir cynigion ar gyfer gwella isod.

| Cynigion ar gyfer gwella |
| --- |
| **C1** Dylai'r Awdurdod sicrhau ei fod yn:<br>• lleihau amwysedd posibl yn y ffordd y mae'n disgrifio ei amcanion; ac<br>• yn adrodd ar gynnydd tuag at gyflawni'r amcanion hynny, yn hytrach na'r gweithgareddau a ddefnyddir i'w cyflawni yn unig. |

# Adroddiad manwl

## Cyflwyniad

7 Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn gan yr Archwilydd Cyffredinol, gyda chymorth staff Swyddfa Archwilio Cymru. Ceir disgrifiad cryno o ddyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol ar dudalen 2.

8 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad blynyddol am ba mor dda mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol Cymru'n cynllunio ar gyfer gwella ac yn darparu eu gwasanaethau. Mae Atodiad 1 yn cyflwyno mwy o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur. Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol yn cyflwyno darlun o beth mae pob cyngor neu awdurdod yng Nghymru yn ceisio'i gyflawni a sut mae'n mynd ati i wneud hyn, ac yn manteisio ar waith arolygiaethau eraill lle bo'n briodol. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn nodi'r cynnydd a wnaeth yr Awdurdod ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf, gan ystyried hunanasesiad yr Awdurdod.

9 Gydol yr adroddiad hwn, rydym yn nodi beth mae angen i'r Awdurdod ei wneud er mwyn gwella ei wasanaethau. O gofio'r amrywiaeth eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Awdurdod, byddai'n anarferol iawn pe na baem yn canfod rhywbeth y gellir ei wella. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gallu:

- argymell i Weinidogion Llywodraeth Cymru y dylent ymyrryd mewn rhyw fodd;
- cynnal archwiliad arbennig a chyhoeddi'r adroddiad gydag argymhellion manwl;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – ac os gwneir argymhelliad ffurfiol, rhaid i'r Awdurdod ymateb iddo'n gyhoeddus cyn pen 30 diwrnod; a
- gwneud cynigion ar gyfer gwella – os byddwn yn cyflwyno cynigion i'r Awdurdod, disgwyliwn iddynt weithredu arnynt cyn dilyn hynny wedyn.

10 A yw'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r wybodaeth angenrheidiol i chi, ac yn hawdd i'w ddeall? Mae croeso i chi anfon sylwadau trwy e-bostio info@wao.gov.uk neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

## Mae trefniadau manylach a mesurau llwyddiant mwy ystyrlon yr Awdurdod yn debygol o wella ei allu i sicrhau gwelliannau

11 Nid ydym yn cynnal adolygiad blynyddol cynhwysfawr o holl drefniadau neu wasanaethau'r awdurdod. Mae casgliadau'r adroddiad hwn yn seiliedig ar ein gwybodaeth gronnus ac a rennir, a chanfyddiadau'r gwaith blaenoriaeth a wnaed eleni. Trwy wneud hyn, rydym hefyd wedi ystyried unrhyw amcanion gwella yr oedd yr Awdurdod wedi gobeithio'u cyflawni yn 2010-11. Lle bo'n berthnasol, rydym yn cyfeirio at yr amcanion gwella hyn yn yr adrannau canlynol. Yn anochel, mae unrhyw asesiad yn dibynnu ar ansawdd y wybodaeth a ddarperir a pha mor berthnasol ydyw.

## Mae'r Awdurdod wedi gwella ei fframwaith cynllunio, yn canolbwyntio mwy ar gwsmeriaid ac wedi cyflwyno strwythur cliriach ar gyfer ei gyfarwyddiaethau

12 Yn ein llythyr Diweddariad o ran yr Asesiad Corfforaethol a anfonwyd at Brif Weithredwr yr Awdurdod ar 2 Awst 2011, daethom i'r casgliad bod y gwelliannau i drefniadau cynllunio ariannol tymor canolig yr Awdurdod a sut roedd yn cynllunio ar gyfer gwelliannau, yn ogystal â rhoi mwy o bwyslais ar berfformiad, yn enghreifftiau o sut wnaeth yr Awdurdod barhau i gryfhau ei drefniadau corfforaethol. Fodd bynnag, mae absenoldeb unrhyw ddulliau corfforaethol wedi'u datblygu'n llawn ar gyfer cynllunio'r gweithlu, ac absenoldeb unrhyw ddata gwaelodlin cynhwysfawr ar gyfer ddulliau newydd o fesur llwyddiant, yn dangos bod mwy o waith i'w wneud.

13 Roedd y llythyr hefyd yn nodi bod amcanion gwella'r Awdurdod a'i gynllun gwella (sef y *Cynllun Busnes a Gwelliant ar gyfer 2011-12*) yn bodloni gofynion y Mesur. Fodd bynnag, roedd cyflwyno mesurau llwyddiant newydd sy'n canolbwyntio fwy ar ganlyniadau, yn golygu nad oedd rhai ffigurau gwaelodlin ar gael ar y pryd, gan leihau gallu'r Awdurdod i fonitro cynnydd. Mae'r Awdurdod wedi bod wrthi'n datblygu'r ffigurau gwaelodlin hyn fel rhan o'i gynllun gwella ar gyfer 2011-12 a bydd mewn gwell sefyllfa i asesu ei gynnydd yn 2012-13.

14 Mae'r amcanion gwella perthnasol a fabwysiadodd yr Awdurdod ar gyfer 2010-11 ac a all gryfhau ei allu i sicrhau gwelliannau yn y dyfodol wedi'u nodi isod:

- 'mae'r Awdurdod yn parhau i weithredu'n effeithiol ac yn effeithlon gan ddarparu gwasanaeth i bawb o fewn yr adnoddau sydd ar gael iddo'; ac
- 'mae gan yr Awdurdod wasanaethau effeithiol sy'n canolbwyntio ar y dinesydd i bawb'

15 Mae'r Awdurdod wedi dechrau ymateb yn gadarnhaol i rai o'r cynigion ar gyfer gwella a amlinellir yn *Adroddiad Gwella Blynyddol 2010*. Yn benodol, mae ei amcanion gwella ar gyfer 2011-12 yn canolbwyntio mwy ar yr hyn a fydd yn cael ei gyflawni, yn cael eu cefnogi'n well gan y gweithgareddau mae'r Awdurdod yn bwriadu eu darparu ac yn fwy mesuradwy.

16 Roedd cynnydd yn nifer y dyddiau cyfwerth ag amser llawn a gollwyd o ganlyniad i absenoldeb salwch staff yn 2010-2011. Cynyddodd y ffigwr hwn 27 y cant i 14 diwrnod, o 11 diwrnod yn 2009 10. Mae hyn yn sylweddol uwch na lefelau absenoldeb salwch y ddau Awdurdod Parc Cenedlaethol arall yng Nghymru[1]. Mewn sefydliad cymharol fach, mae salwch tymor hir na ellir ei osgoi ychydig iawn o aelodau staff yn cael effaith anghymesur. Rydym yn deall bod lefelau absenoldeb salwch yn gwella yn 2011-12 gydag absenoldeb tymor byr yn lleihau o 33.5 y cant i 22.7 y cant o gyfanswm yr absenoldebau.

17 Cofnodir lefelau absenoldeb salwch yn ffurfiol i Bwyllgor Perfformiad ac Adnoddau'r Awdurdod bob chwarter ac anfonir adroddiadau misol ar rai aelodau staff at reolwyr llinell. Cymeradwywyd polisi rheoli presenoldeb ac absenoldeb salwch newydd gan y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ym mis Mawrth 2011 a chafodd cyfweliadau dychwelyd i'r gwaith eu gweithredu yn fuan wedi hynny. Mae pennaeth yr adran Adnoddau Dynol yn trafod gyda Chyngor Gwynedd er mwyn archwilio'r dewisiadau eraill posibl ar gyfer lleihau absenoldebau salwch cyffredinol.

1 9.1 diwrnod cyfwerth ag amser llawn yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a 6.1 diwrnod yn Awdurdod Parc Cenedlaerthol Arfordir Penfro.

18 Ym mis Mai 2011, yn dilyn ymddeoliad y cyfarwyddwr cyfathrebu, cafodd yr Awdurdod ei ailstrwythuro ac mae'r cyfarwyddwr rheolaeth tir a'r cyfarwyddwr gwasanaethau corfforaethol yn gyfrifol am y gyfarwyddiaeth honno bellach gyda mwy o gyfleoedd i sicrhau bod yr holl wasanaethau wedi'u cydgysylltu'n well.

19 O gofio ei amcan gwella ar gyfer 2011-2012 mewn perthynas â datblygiadau anawdurdodedig ac mewn ymateb i'r ffaith bod aelod allweddol o staff i ffwrdd ar absenoldeb salwch tymor hir, mae'r Awdurdod wedi trosglwyddo staff ac wedi cytuno ar adnoddau ychwanegol i ariannu swydd arall. Yn yr un modd, cafwyd cymorth cyfreithiol ychwanegol fel y gallai gwasanaeth cyfreithiol yr Awdurdod ei hun ganolbwyntio ar faterion yn ymwneud ag amcanion gwella 2011-12.

20 Er bod nifer y dyddiau hyfforddi cyfartalog fesul aelod staff wedi gostwng o 4.4 diwrnod i 2.8 diwrnod yn 2010-11, dywedodd y staff a holwyd nad oedd hyn yn broblem a bod hyfforddiant perthnasol ar gael pan oedd angen. Nid yw'r gostyngiad yn cael ei ystyried yn ganlyniad i gyfyngiadau ar adnoddau ond yn hytrach bod y broses arfarnu staff wedi dangos bod llai o angen am hynny nag yn 2009-10. Cynhelir arfarniadau staff bob 12 mis ac mae'r broses yn cael ei chysylltu ag amcanion gwella'r Awdurdod.

21 Mae aelodau'r Awdurdod hefyd wedi bod yn gweithredu system arfarnu am y ddwy flynedd ddiwethaf. Caiff cadeirydd pob Awdurdod Parc Cenedlaethol ei arfarnu yn ei dro gan gadeirydd un o'r Awdurdodau eraill. Caiff aelodau eraill yr Awdurdod eu harfarnu gan banel o dri o aelodau'r Awdurdod. Roedd proses yr Awdurdod o arfarnu ei aelodau yn un o'r rhesymau dros ddyfarnu Siarter Aelodau Llywodraeth Leol Cymru iddo yn 2010. Mae'r Siarter yn darparu fframwaith eang ar gyfer cynllunio, hunanasesu, gweithredu ac adolygu lleol. Mae'r broses arfarnu'n nodi anghenion hyfforddi aelodau, gan arwain at gynnydd yn nifer y sesiynau hyfforddi yn ystod 2010-11. Fodd bynnag, gostyngodd canran cyfartalog aelodau sy'n mynychu hyfforddiant o 68.6 i 60.75 y cant yn 2010-11. Er nad yw'r holl hyfforddiant yn debygol o fod yn berthnasol i'r holl aelodau, mae'r dystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod rhai aelodau weithiau'n rhy brysur gydag ymrwymiadau sy'n gysylltiedig â'u gwaith yn y cyngor.

22 Fel rhan o'i amcanion gwella o'.......ddarparu gwasanaeth i bawb gyda'r adnoddau sydd ganddo', cynlluniodd yr Awdurdod i gyflawni arbedion parhaol dros y cyfnod 2010-11 i 2012-13. Ym mis Mehefin 2009, mae'n nodi targedau ar gyfer lleihau gwariant ym mhob un o'r tair blynedd ddilynol, yn seiliedig ar setliadau grant Llywodraeth Cymru a ragwelir a chynlluniau eraill ar gyfer lleihau costau. Er bod y setliadau grant gwirioneddol yn is nag a ragwelwyd yn wreiddiol, mae'r Awdurdod wedi llwyddo i sicrhau arbedion ychwanegol parhaol hyd yn hyn. Mae hyn wedi bod o ganlyniad i gostau is nag a ragwelwyd ar gyfer y gyflogres a mesurau eraill er mwyn lleihau gwariant. O ganlyniad, mae'r arbedion tair blynedd eisoes yn uwch na'r targed. Mae mwy o wybodaeth am berfformiad ariannol yr Awdurdod ar gael yn Atodiad 3.

23 Mae problemau capasiti wedi arafu gwaith paratoi, mabwysiadu a gweithredu strategaeth Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu'r (TGCh) Awdurdod, a oedd wedi'i chynllunio ar gyfer mis Hydref 2010. Mae'r strategaeth TGCh bellach wedi'i chymeradwyo a bydd yn cael ei chyflwyno a'i gweithredu dros y misoedd nesaf.

24 Mae dull yr Awdurdod o ganolbwyntio mwy ar gwsmeriaid yn cael ei gefnogi gan nifer o fentrau. Mae'r Awdurdod yn datblygu strategaeth ymgynghori, mae wedi nodi, grwpio a blaenoriaethu ei gwsmeriaid, mae am gadw ei safon Buddsoddwyr mewn Pobl, ac mae'n ailgynllunio ac ailgyflwyno holiadur boddhad cwsmeriaid sy'n addas ar gyfer y mesurau llwyddiant newydd y mae'n eu datblygu. Nod llawer o'r rhain yw sicrhau bod yr Awdurdod yn cyrraedd safon Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cwsmeriaid[2] yn 2012.

25 Mae'r Awdurdod yn cynnal mwy o drafodaethau hefyd gyda Chynghorau Tref a Chymuned. Mae wedi cynnal sesiynau gyda chynrychiolwyr y sefydliadau hyn ar y materion y mae gwasanaeth cynllunio'r Awdurdod yn eu hwynebu ac mae'n bwriadu cynnal mwy o sesiynau ar faterion o'r fath fel yr amgylchedd.

26 Cyhoeddodd yr Archwilydd Penodedig ei *Lythyr Archwilio Blynyddol* ar 29 Tachwedd 2011 ac mae ar gael yn Atodiad 3. Yn y *Llythyr Archwilio Blynyddol*, mae'r Archwilydd Penodedig yn nodi ei fod wedi cyflwyno barn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu sy'n cadarnhau eu bod yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol yr Awdurdod. Mae hefyd yn gwneud y sylw canlynol:

- Roedd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn ofyniad newydd ar gyfer 2010-11. Er i'r Datganiad gael ei gwblhau yn unol â'r canllawiau perthnasol, mae lle i wella arno yn y dyfodol. Yn arbennig, wrth adrodd am adolygiad yr Awdurdod o effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraethu fel rhan o'i fusnes arferol yn ystod y flwyddyn. Bydd fy nhîm ymgysylltu'n trafod y mater hwn ymhellach gyda swyddogion i adeiladu ar flwyddyn gyntaf y gofyniad newydd hwn.

27 Derbyniodd yr Awdurdod ganmoliaeth gan Fwrdd yr Iaith am barhau i reoli a gweinyddu ei Gynllun Iaith Gymraeg yn gadarn. Nododd y Bwrdd fod yr Awdurdod wedi ymrwymo i brif ffrydio'r iaith Gymraeg ymhob agwedd o'i waith, a bydd yn ffurfioli'r ymagwedd hon drwy gynnwys y Gymraeg yn ei declyn asesu effaith diwygiedig ar gydraddoldeb. Cafodd rhaglen strwythuredig o bolisïau a strategaethau ar gyfer yr asesiad ei chyflwyno. Mae'r Awdurdod yn cyflogi nifer ddigonol o siaradwyr Cymraeg er mwyn darparu gwasanaethau dwyieithog cynhwysfawr i'r cyhoedd. Er ei fod wedi profi peth anhawster yn penodi siaradwyr Cymraeg i rai swyddi, nid yw hynny wedi effeithio ar safon y gwasanaethau iaith Gymraeg a ddarperir.

2 Sefydliad sydd wedi sefydlu safonau ar gyfer sefydliadau sydd am roi'r cwsmer yn ganolog i'w holl waith.

## Mae'r Awdurdod yn gwella'r modd y mae'n helpu pobl i fwynhau a deall y Parc ond, wrth wella'r ffordd y mae'n gofalu am y Parc, nid yw bob amser yn canolbwyntio'n glir ar y meysydd hynny a nodwyd fel rhai pwysig

28 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn nodi pa mor dda mae'r Awdurdod yn cyflwyno gwelliannau mewn meysydd blaenoriaeth.

### Er bod yr Awdurdod yn gwella'r ffordd y mae'n gofalu am y Parc, nid oes digon o eglurder ynglŷn â chynnydd mewn perthynas â rhai o'i flaenoriaethau

29 Mae'r amcanion gwella ar gyfer 2010-11 sy'n berthnasol i wella'r modd y mae'r Awdurdod yn gofalu am y Parc yn cynnwys:

- 'gwella nodweddion arbennig y Parc (fel y'u diffinnir yn adroddiad Cyflwr y Parc)'; a
- 'sicrhau bod y gwasanaeth cynllunio yn darparu gwasanaeth ymatebol, cyson o ansawdd uchel sy'n darparu gwerth am arian'.

30 Er nad yw adroddiad *Cyflwr y Parc* a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2005 na'r adroddiad drafft a gyhoeddwyd yn ystod y gwanwyn 2009 yn diffinio nodweddion arbennig y Parc, mae adroddiad drafft 2009 yn cyfeirio at ansawdd y dirwedd, llonyddwch, treftadaeth ddiwylliannol a bioamrywiaeth fel enghreifftiau. Mae Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Eryri 2010-2015 yn cynnwys rhai diffiniadau manwl o'r nodweddion arbennig hyn a gellir eu crynhoi yn y naw elfen ganlynol:

- tirwedd;
- cymuned;
- yr iaith Gymraeg;
- celfyddydau a diwylliant;
- dealltwriaeth a mwynhad, yn gysylltiedig ag iechyd;
- hamdden;
- treftadaeth archaeolegol;
- daeareg; a
- bioamrywiaeth.

31 Mae'r Awdurdod yn parhau i fynd i'r afael â rhywogaethau planhigion ymledol yn y Parc. Yn 2010 11, cafodd 341 hectar o rododendron a rhywogaethau ymledol eraill eu dileu neu eu rheoli; o gymharu â 121 hectar yn 2009-10 a 63 hectar yn 2008-09. Mae arwynebedd y coetir brodorol newydd a sefydlwyd wedi cynyddu 46 y cant ac mae arwynebedd y coetir nad oedd yn arfer cael ei reoli ond sy'n cael ei reoli bellach wedi cynyddu 13 y cant.

32 Er mai ychydig iawn o wrychoedd sydd yn y Parc, mae cytundebau plannu gyda thirfeddianwyr wedi arwain at blannu 2,995 metr o wrychoedd yn 2010-11, yn ychwanegol at y 4,145 o fetrau a blannwyd yn 2009-10. Ar ôl iddynt aeddfedu, gall y gwrychoedd gael eu plygu[3] . Yn sgil y cytundebau plygu gwrychoedd, plygwyd bron i 2,000 metr o wrychoedd yn 2010-11 a chwblhaodd 19 o breswylwyr ifanc gwrs plygu gwrychoedd i helpu i adfer y traddodiad hwn ac i gyflwyno mwy o gyfleoedd cyflogaeth.

33 Yn ystod 2008-09, nododd yr Awdurdod bod tua 300 o adeiladau rhestredig mewn perygl yn y Parc a mynegodd ei fwriad i leihau'r ffigur hwn dri y cant trwy ei waith ei hun yn ystod 2010-11. Mewn gwirionedd, sicrhaodd yr Awdurdod ostyngiad o 2.3 y cant, sef saith adeilad rhestredig, yr un ganran o ostyngiad ag a gyflawnwyd yn 2009-10. Yn ystod y ddwy flynedd honno, defnyddwyd yr holl

3 Tocio a phlygu, gan greu gwaelod mwy trwchus sy'n fwy addas i fywyd gwyllt.

gyllideb a ddyrannwyd er mwyn lleihau y nifer o adeiladau sydd wedi eu rhestru. O ganlyniad i arolygon parhaus gan yr Awdurdod, bu cynydd yn y nifer yr adeiladau ar ei gofrestr o adeiladau sydd mewn perygl.

34 Roedd rhai o'r gweithgareddau ar y cyd a gynhaliodd yr Awdurdod yn ystod 2010-11 sy'n cefnogi'r gwaith o sicrhau gwelliannau i'r Parc yn cynnwys:

- gweithio gyda'r Ganolfan Defnydd Tir Amgen ym Mhrifysgol Bangor i ddatblygu cronfa ddata o bobl â diddordeb mewn plannu coed newydd neu ehangu coetiroedd cyfredol;
- gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i gytuno ar gynllun gweithredu a chyfrifoldebau i gefnogi'r gwaith o ddarparu Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Eryri;
- gweithio gydag awdurdodau cynllunio eraill ledled y DU i rannu arferion da o brosiect peilot lliniaru ystlumod yr Awdurdod;
- gweithio gyda Chomisiwn Coedwigaeth Cymru i sicrhau bod rhan o'r coetir sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru'n cael ei rheoli; a
- gweithio gyda Cadw[4] i lunio astudiaethau nodweddion ar gyfer dwy ardal gadwraeth.

35 Mae'r Awdurdod yn parhau i gymryd camau i leihau ei ôl-troed carbon. Mae allyriadau carbon y gellir eu priodoli i'r Awdurdod wedi gostwng 30 y cant, o gymharu â ffigur gwaelodlin a sefydlwyd yn 2005. Mae amcangyfrifon a gyflwynodd yr Awdurdod i Lywodraeth Cymru'n awgrymu ei fod wedi sicrhau gostyngiad o dros 16 y cant mewn allyriadau $CO_2$ rhwng 2009-10 a 2010-11.

36 Ychydig iawn o wybodaeth oedd ar gael am sut yr oedd yr Awdurdod wedi gwella 'nodweddion arbennig y Parc' mewn perthynas â meysydd fel cymuned, yr iaith Gymraeg, celfyddydau a diwylliant a bioamrywiaeth. Mae gwybodaeth am berfformiad mewn perthynas â nodweddion arbennig y Parc sy'n gysylltiedig â dealltwriaeth, mwynhad a hamdden yn cael sylw yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

37 Nid oedd yr Awdurdod wedi diffinio'r hyn a olygir gan 'wasanaeth cynllunio ymatebol, cyson o ansawdd uchel'. Gosododd darged iddo'i hun o ddod i benderfyniad ar o leiaf 65 y cant o'r holl geisiadau cynllunio o fewn wyth wythnos erbyn diwedd mis Mawrth 2011, a chynnal cyfradd boddhad cwsmeriaid o 90 y cant o leiaf. Cyflawnodd yr Awdurdod 67 y cant a 95 y cant yn hyn o beth. Fodd bynnag, roedd cyflymder y penderfyniadau yr un fath ag yn 2009-10 ac roedd nifer yr ymatebwyr a oedd yn 'fodlon iawn' â'r gwasanaeth cynllunio wedi gostwng o 69 y cant i 52 y cant, gyda chynnydd yn nifer yr ymatebwyr a oedd yn 'anfodlon iawn'. Roedd nifer y cwynion ynglŷn â'r gwasanaeth cynllunio wedi gostwng o 22 i 17 dros yr un cyfnod. Mae'r Awdurdod eisoes wedi dechrau archwilio'r rhesymau dros y newidiadau yn y lefelau boddhad.

38 Roedd ceisiadau cynllunio oedd yn aros am benderfyniadau yn 92 y cant[5] ar ddiwedd mis Mawrth 2011, er mai 40 y cant oedd y ffigur ar gyfer y ceisiadau hynny oedd yn dal i ddisgwyl am benderfyniad ar ôl mwy nag wyth wythnos. Roedd y ffigur hwn yn uwch na ffigur Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

4 Gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru.
5 Nifer y ceisiadau a ddygwyd ymlaen fel canran o'r ceisiadau a dderbyniwyd

ond yn is na ffigur Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a llawer yn is na chyfartaledd Cymru, sef 124 y cant. Er bod Cynllun Datblygu Lleol Eryri wedi'i fabwysiadu bedwar mis yn hwyrach na'r disgwyl ym mis Gorffennaf 2011, ar y cyfan nid oes gan yr Awdurdod unrhyw reolaeth dros gyfnodau terfynol y mabwysiadu.

39 Mae gwneud y penderfyniadau cywir ar geisiadau cynllunio, a chael cefnogaeth arolygydd cynllunio a benodwyd gan y llywodraeth os yw'r ymgeisydd yn penderfynu apelio, yn helpu i ddiogelu'r Parc rhag datblygiadau diangen. Cafodd penderfyniad yr Awdurdod ei gefnogi mewn 72 y cant o'r holl apeliadau cynllunio yn 2010-11, gan gynnal y lefel a sefydlwyd yn 2009-10. Cefnogwyd penderfyniad yr Awdurdod ym mhob apêl oedd yn gysylltiedig â rhybuddion gorfodi, o gymharu â'r 75 y cant a gyflawnwyd yn y flwyddyn flaenorol.

40 Yn 2010-11, bu gostyngiad yng nghanran y tai a ddarperir yn y Parc a adeiladwyd ar dir wedi'i ddatblygu'n flaenorol, ynghyd â nifer y cytundebau Adran 106[6] a gwblhawyd. Cynyddodd canran y tai newydd a osodwyd yn y categori tai fforddiadwy o 33 y cant yn 2009-10 i 43 y cant yn 2010-11. Ychydig iawn o ddylanwad sydd gan yr Awdurdod dros y ffigurau hyn gan eu bod yn dibynnu'n bennaf ar y nifer a'r mathau o geisiadau cynllunio a dderbynnir. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod yn cyd-ariannu dwy swydd hwylusydd tai fforddiadwy gyda Chyngor Gwynedd (Gwynedd) a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (Conwy).

41 Mae sicrhau gwerth am arian yn rhan allweddol o amcan yr Awdurdod ar gyfer gwella'r gwasanaeth cynllunio. Fodd bynnag, nid yw hunanasesiad yr Awdurdod o berfformiad yn 2010-11 yn nodi a gyflawnwyd hyn, ac nid yw'n cynnwys unrhyw wybodaeth ariannol sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth cynllunio. Yn 2009, comisiynodd tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru PricewaterhouseCoopers (PwC) i gynnal astudiaeth gwerth am arian o'r gwasanaethau cynllunio a ddarperir gan y tri Awdurdod. Ni chyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ar y gwaith hwn tan fis Ionawr 2011. Yr asesiad cyffredinol oedd bod yna dystiolaeth fod gwasanaethau cynllunio'r tri awdurdod parc cenedlaethol yng Nghymru wedi gwella'n sylweddol. Er bod yna faterion heb eu datrys o ran a yw cymariaethau â gwasanaethau tebyg eraill ar gael ar hyn o bryd, mae'r Awdurdod yn cydnabod y gallai fod wedi gwneud mwy i adeiladu ar y wybodaeth sydd ar gael i geisio asesu cynnydd tuag at ei nod o sicrhau gwerth am arian.

## Mae'r Awdurdod yn cyflwyno gwelliannau mesuradwy i'r modd y mae'n helpu pobl i fwynhau a deall y Parc

42 Yr unig amcanion gwella ar gyfer 2010-11 sy'n berthnasol yn uniongyrchol i sicrhau gwelliannau yn y ffordd y mae'r Awdurdod yn helpu pobl i fwynhau a deall y Parc 'yw bod mwy o gyfleoedd mynediad o ansawdd uchel i bobl o bob gallu fwynhau tir a dŵr y Parc'.

43 Fel rhan o'i gyfraniad at nod Llywodraeth Cymru o gwblhau Llwybr Arfordir Cymru erbyn 2012, mae'r Awdurdod wedi cynnal

6 Yn aml, cyfeirir ato fel 'lles cynllunio', lle mae rhwymedigaeth i wella gwasanaethau neu seilwaith lleol yn elfen gyfreithiol-rwymol o benderfyniad cynllunio.

gwelliannau i hawliau tramwy fel darparu gatiau a chamfeydd. Mae enghreifftiau o welliannau eraill i hawliau tramwy'n cynnwys cynnal arolygon o lwybrau mewn tair ardal cyngor cymuned a pharatoi ac adnewyddu hen lwybr sy'n cysylltu Pen y Pas a Phen y Gwryd. O ganlyniad i'r rhain a gweithgareddau eraill, cynyddodd hyd y llwybrau yn y Parc a gafodd eu gwella a'u cynnal o 19.25 km yn 2009-10 i 28.09 km yn 2010-11. O gymharu â 2009-10 roedd cynnydd o 18 y cant yn nifer yr ymwelwyr ar lwybrau Eryri yn 2010-11. Nid yw'r wybodaeth a gesglir gan Gynghorau Gwynedd a Chonwy am ganran cyfanswm hyd y llwybrau a hawliau tramwy eraill sy'n hawdd i aelodau'r cyhoedd eu defnyddio wedi'i diweddaru.

44 Mae angen cael cysylltiadau gweithio agos rhwng parciau cenedlaethol a'u hawdurdodau lleol cysylltiedig er mwyn cynnal a gwella hawliau tramwy. Yn gynnar yn 2010, llofnododd yr Awdurdod gytundeb lefel gwasanaeth (CLG) gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy er mwyn arolygu, cynnal a gwella hawliau tramwy cyhoeddus mewn rhan benodol o'r Parc. Cwblhawyd yr arolygon cyntaf yn 2010-11 a dyfarnwyd contractau ar gyfer y gwelliannau a nodwyd yn yr arolygon. Mae trefniadau gweithio tebyg gyda Chyngor Gwynedd yn cymryd mwy o amser i'w sefydlu.

45 Parhaodd yr Awdurdod i gynnig teithiau cerdded tywysedig i'r rhai â nam ar eu golwg, gan lwyddo i gael presenoldeb cyfartalog o 23 o bobl fesul taith yn 2010-11, o gymharu â chyfartaledd o 16 yn 2009-10. Ariennir teithiau i ddefnyddwyr cadair olwyn ar y cyd gan y Parc, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Chynghorau Gwynedd a Chonwy. Hefyd, prynodd yr Awdurdod ddau feic gorweddol i'w defnyddio fel rhan o'r prosiect Herio eich Ffiniau[7] a drefnir gan Darganfod Dolgellau. Diweddarodd yr Awdurdod ei ddeunydd darllen diogelwch gan ddefnyddio dolenni at y swyddfa dywydd ar gyfer darparu rhagolygon tywydd manylach ar gyfer ymwelwyr, yn enwedig dringwyr mynydd. Penododd yr Awdurdod hefyd warden gyda'r rôl benodol o ddatblygu prosiectau sy'n gysylltiedig â diogelwch, paratoi a chynllunio.

46 Rhan bwysig o sicrhau mynediad ehangach i'r Parc yw pa mor rhwydd y gellir cludo pobl o amgylch y Parc ei hun. Mae'r Awdurdod yn parhau'n aelod allweddol o bartneriaeth Goriad Gwyrdd Eryri[8] y cyfeiriwyd ati yn adroddiad y llynedd. Yn 2010-11 lluniwyd pamffledi newydd ar gyfer Gwasanaeth Bws Sherpa Eryri y bartneriaeth, a chyflwynwyd strwythur prisiau newydd a symlach, gan sicrhau elw bach i'r gwasanaeth. Mae gan yr Awdurdod hefyd ddolenni helaeth ar ei wefan i amserlenni a gwybodaeth arall am fysiau a threnau. Mae'r toiledau cyhoeddus ym Mhen y Pas wedi cael eu huwchraddio ac mae'r cyfleusterau parcio wedi'u gwella, yn enwedig ym Mhen y Gwryd.

47 O'r pum canolfan ymwelwyr sy'n cael eu rhedeg gan yr Awdurdod, gwelodd dair ohonynt ostyngiad yn nifer yr ymwelwyr yn 2010-11, o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Ar y cyfan, dros yr un cyfnod, gostyngodd nifer yr ymwelwyr 6.5 y cant. Mae'r Awdurdod yn

7 Darparu cyfarpar a chyfleoedd ar gyfer hyfforddi a datblygu marchogion ag anabledd.
8 Mae'r aelodau eraill yn cynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Gwynedd, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Adran Menter a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cymru a Chroeso Cymru.

ymwybodol o'r angen i adolygu cyfleusterau'r canolfannau ymwelwyr, yn enwedig yng nghyd-destun y wybodaeth eang sydd ar gael i'r cyhoedd drwy'r rhyngrwyd.  Mae eisoes yn cynnal hyfforddiant ar y cyd gyda Cadw gyda'r bwriad o gynnig cyfleuster canolfan ymwelwyr fel rhan o gynlluniau ar gyfer gwesty a brynwyd gan Cadw ger Castell Harlech.

48 Plas Tan y Bwlch yw Canolfan Astudiaethau Amgylcheddol yr Awdurdod (y Ganolfan) a dyma ganolbwynt ei wasanaethau addysg. Mae'r Ganolfan yn cynnal cyrsiau preswyl a dibreswyl, ac mae llawer ohonynt yn helpu pobl i ddeall a gwerthfawrogi'r hyn sydd gan y Parc i'w gynnig. Mae ffigurau cyfranogi cyrsiau hyfforddi proffesiynol wedi gostwng bump y cant, o 856 i 820. Fodd bynnag, cynyddodd ffigurau cyfranogi cyrsiau cyhoeddus un y cant, o 2,023 i 2,029 a chynyddodd nifer mynychwyr y sesiynau dydd yn sylweddol o 3,538 i 5,385. O'r rhai a ddefnyddiodd Plas Tan y Bwlch ac a ymatebodd i'r holiadur, mynegodd 99.8 y cant eu bod yn fodlon â'r cyfleuster, sy'n uwch na'r 98 y cant a gofnodwyd yn 2009-10.

49 Rhan o rôl yr Awdurdod fel gwasanaeth addysg yw trefnu sesiynau cerdded a sgwrsio, ymateb i geisiadau am wybodaeth am y Parc, gwasanaethu gwefan "Yma i Helpu' yr Awdurdod ar gyfer athrawon a rhoi darlithoedd sydd wedi'u cynllunio ar gyfer grwpiau oed penodol a chyfnodau allweddol addysgol penodol. Yn 2010-11, am y tro cyntaf, ceisiodd yr Awdurdod asesu effaith gweithgarwch ei wasanaeth addysgol. Rhoddodd defnyddwyr y gwasanaeth addysg a arolygwyd gan yr Awdurdod sgôr ysbrydoli cyfartalog o 10.4[9].

50 Roedd yr Awdurdod yn un o brif aelodau menter partneriaeth Bwrlwm Eryri pan y sefydlwyd ef yn 2005, ac mae bellach wedi cymryd rheolaeth gyflawn o'r prosiect hwn. Ei nod yw 'cofnodi, casglu, gwarchod a hyrwyddo ymwybyddiaeth o 'dreftadaeth ddiwylliannol Eryri'. Roedd prosiectau'n cynnwys cymdeithasau, ysgolion, awduron, artistiaid a beirdd lleol yn parhau i gael eu datblygu a'u darparu yn 2010-11. Yn ddiweddar, mabwysiadodd yr Awdurdod strategaeth ymwybyddiaeth ac, yn ystod 2010-11, roedd dros dri chwarter y camau gweithredu wedi'u cwblhau ar amser, gyda hanner y rhai a oedd ar ei hôl hi wedi'u hadolygu a'u gohirio tan 2011-12.  Un enghraifft o weithgarwch sy'n cefnogi'r strategaeth ymwybyddiaeth hon oedd newid a diweddaru paneli gwybodaeth ar wahanol lwybrau. Penododd yr Awdurdod swyddog partneriaeth hefyd ar gyfer un o'i ardaloedd daearyddol, gyda'r bwriad o ddatblygu cyfleoedd addysgol i bobl o bob oed.

51 Mae defnydd yr Awdurdod o dechnoleg fodern i helpu pobl i fwynhau, archwilio a darganfod y Parc yn parhau i gael ei ddatblygu, ac ychwanegwyd clipiau fideo a sain wedi'u diweddaru at ei wefan. Datblygodd yr Awdurdod hefyd raglen iPhone[10] a ddaeth yn un o'r rhaglenni am ddim a gafodd ei lawrlwytho fwyaf o wefan Apple yn ystod 2010-11. Ar hyn o bryd, mae'r Awdurdod yn datblygu rhaglen y gellir ei defnyddio ar ffonau symudol android.

9 Mae sgorau ysbrydoli yn amrywio o 1 i 11 gyda 11 y sgôr ysbrydoli uchaf.
10 http://itunes.apple.com/gb/app/id445357614?mt=8

## Mae'r Awdurdod wedi gwella ei ddull o werthuso ac adrodd am ei berfformiad ac mae'n bwriadu gwneud gwelliannau pellach

52 Dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol fod yr Awdurdod wedi cyflawni ei holl ddyletswyddau o ran cyhoeddi gwybodaeth am welliannau. Fodd bynnag, dylai'r Awdurdod sicrhau ei fod yn rhoi mwy o sylw i ganllawiau Llywodraeth Cymru wrth weithredu a bod yn gliriach ynglŷn ag i ba raddau y mae wedi cyflawni ei amcanion gwella, yn hytrach nag asesu llwyddiant y prosiectau unigol a gefnogodd y ddarpariaeth yn unig.

53 Cyhoeddodd yr Awdurdod ei asesiad o'i berfformiad yn 2010-11 ar 24 Hydref 2011. Mae llawer o'r wybodaeth a ddefnyddiwyd ar gyfer asesiad blynyddol yr Awdurdod o berfformiad a chynnydd tuag at gyflawni ei amcanion gwella ar gael yn yr adroddiadau chwarterol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau.

54 Roeddem yn falch o weld bod yr adroddiadau chwarterol i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau wedi'u seilio ar ei amcanion gwella ar gyfer y flwyddyn honno, gan ganolbwyntio ar raglen waith gorfforaethol yr Awdurdod, yn hytrach nag adroddiadau fesul maes gwasanaeth. Mae'r dull hwn yn helpu i sicrhau gwell dealltwriaeth o gynnydd tuag at gyflawni blaenoriaethau, yn annog symudiad o weithio digyswllt traddodiadol ac yn ail-bwysleisio pwysigrwydd y blaenoriaethau hyn i'r aelodau a'r staff.

55 Mae'r adroddiadau cynnydd hyn yn defnyddio system goleuadau traffig i amlinellu cynnydd ar unrhyw ddangosyddion perfformiad perthnasol. Caiff y wybodaeth ei chrynhoi'n ganolog cyn gwahodd sylwadau gan staff perthnasol. Mae adroddiadau chwarterol yn cynnwys yr holl wybodaeth am berfformiad, yn hytrach na gwybodaeth am y meysydd hynny nad ydynt wedi gwneud cymaint o gynnydd â'r disgwyl yn unig.

56 Mae cyfarwyddwyr hefyd yn monitro cynnydd yn rheolaidd. Mae'r fformat a ddefnyddir yn rhoi pwyslais ar yr amcanion gwella cyfredol, gan amlinellu cynnydd ar weithgareddau arfaethedig sy'n gysylltiedig â phob amcan. Mae penaethiaid gwasanaethau'n cyfarfod â chyfarwyddwyr bob pythefnos. Mae gan y prif weithredwr drefniadau ffurfiol gyda chyfarwyddwyr i gyfarfod â thrafod cynnydd ar amcanion, gan roi pwyslais arbennig ar sicrhau y bydd y wybodaeth waelodlin newydd sy'n cael ei chasglu ar gael ar gyfer 2012-13.

57 Mae'r tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru wedi sefydlu adran a rennir o fewn system Ffynnon[11] fel y gall pob awdurdod gymharu ei gynnydd unigol ar ambell ddangosydd perfformiad gyda chynnydd y ddau arall. Ar hyn o bryd, nid yw'r tri awdurdod yn diweddaru'r adran hon - enghraifft o ddatblygiad arall sy'n ofynnol er mwyn manteisio i'r eithaf ar botensial system Ffynnon.

11 Datrysiad meddalwedd a gaffaelwyd yn genedlaethol i fodloni gofynion rheoli perfformiad awdurdodau lleol, gwasanaethau tân ac achub, awdurdodau parciau cenedlaethol a'u partneriaid.

58 Fel y nodwyd yn llythyr diweddariad o ran yr asesiad corfforaethol, roedd yr Awdurdod yn cynnig cynyddu aelodaeth y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau o naw aelod i gynnwys pob un o 18 aelod yr Awdurdod. Mae’r newid hwn bellach ar waith ac er ei bod hi’n rhy gynnar i asesu ei effaith yn llawn, mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod y fformat newydd, ynghyd â phenodi cadeirydd newydd, wedi arwain at ystyriaeth fwy cadarn o eitemau’r agenda.

# Atodiadau

## Atodiad 1
## Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal Asesiad Gwella blynyddol, a chyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cynnwys cynghorau lleol, parciau cenedlaethol a'r awdurdodau tân ac achub.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi paratoi'r adroddiad hwn fel rhan o'i ddyletswyddau o dan adran 24 y Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni'i ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n cadarnhau ei fod wedi cynnal Asesiad Gwella o dan adran 18 ac sy'n dweud a ydyw, yn sgil ei archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, yn credu bod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio gwelliannau o dan adran 15.

Mae dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau gwella i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Mae cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub yn enghreifftiau o awdurdodau gwella.

Yr Asesiad Gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni'i ddyletswyddau. Mae'r Asesiad Gwella wedi'i lywio gan asesiad sy'n edrych i'r dyfodol i weld pa mor debygol yw'r awdurdod o gydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw'r awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau arfaethedig er mwyn mynegi barn ar hanes yr awdurdod o sicrhau gwelliant. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn crynhoi casgliadau'r Archwilydd Cyffredinol ar hunanasesiad yr Awdurdod o'i berfformiad.

O dan rai amgylchiadau hefyd, gall yr Archwilydd Cyffredinol gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21) ac mewn perthynas â hyn bydd yn cyflwyno adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol, ac efallai yn cyhoeddi'r adroddiad hwnnw (o dan adran 22). Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi'r adroddiadau archwilio ac asesu yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol cyhoeddedig hwn (o dan adran 24). Bydd hwn hefyd yn cynnwys crynodeb o unrhyw adroddiadau ar arolygiadau arbennig.

Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu'r gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol yr holl reoleiddwyr perthnasol mewn awdurdod gwella. Hefyd, gall yr Archwilydd Cyffredinol ystyried y wybodaeth a rennir gan y rheoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2
# Gwybodaeth ddefnyddiol am Barc Cenedlaethol Eryri a'r Awdurdod

## Yr Awdurdod

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri'n gwario tua £6.3 miliwn y flwyddyn (2010-11). Mae hyn yn gyfystyr â thua £248 y preswylydd. Yn yr un flwyddyn, gwariodd yr Awdurdod £522,000 ar eitemau cyfalaf hefyd.

Mae'r Awdurdod yn cynnwys 18 o aelodau. Mae chwech wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru, naw gan Gyngor Gwynedd a thri gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae'r aelodau hyn yn gwneud penderfyniadau am flaenoriaethau a'r defnydd o adnoddau.

Dibenion yr Awdurdod yn ôl Deddf yr Amgylchedd 1995 yw:

- gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol ardal y Parc; a
- hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau nodweddion arbennig yr ardal.

Wrth fynd i'r afael â'r dibenion hyn, mae Deddf 1995 hefyd yn nodi bod gan yr Awdurdod ddyletswydd i geisio meithrin lles cymdeithasol ac economaidd cymunedau lleol. Yr Awdurdod yw'r awdurdod cynllunio statudol ar gyfer yr ardal.

### Tîm Rheoli Corfforaethol

- Aneurin Phillips yw'r Prif Weithredwr
- Iwan Jones yw'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
- Aled Sturkey yw'r Cyfarwyddwr Cynllunio a Threftadaeth Ddiwylliannol
- Emyr Williams yw'r Cyfarwyddwr Rheolaeth Tir
- Dafydd Edwards yw'r Prif Swyddog Ariannol

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i wefan yr Awdurdod yn www.eryri-npa.gov.uk neu cysylltwch ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Swyddfa'r Parc Cenedlaethol, Penrhyndeudraeth, Gwynedd LL48 6LF.

# Atodiad 3

# Llythyr Archwilio Blynyddol i Aelodau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Cyflwynwyd y llythyr archwilio canlynol ar 29 Tachwedd 2011 gan yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol.

**Cydymffurfiodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri â'i gyfrifoldebau o ran cyflwyno adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau, a gallai wneud gwelliannau pellach mewn rhai meysydd yn y dyfodol**

Cyfrifoldeb yr Awdurdod yw:

- rhoi systemau rheoli mewnol ar waith er mwyn sicrhau trafodion rheolaidd a chyfreithlon, a bod ei asedau'n ddiogel;
- cynnal cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol â'r gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu'r trefniadau priodol i sicrhau ei fod yn defnyddio adnoddau mewn modd darbodus, effeithiol ac effeithlon.

O dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a gyflwynwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol, mae'n ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Awdurdod i sicrhau ei fod yn defnyddio'i adnoddau mewn modd darbodus, effeithiol ac effeithlon; a
- chyflwyno tystysgrif i gadarnhau fy mod wedi cwblhau archwilio'r cyfrifon.

Ar 29 Medi 2011, cyflwynais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu gan gadarnhau eu bod yn cyflwyno darlun cywir a theg o drafodion a sefyllfa ariannol yr Awdurdod. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon.

O 2010-11, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol (gan gynnwys awdurdodau parciau cenedlaethol) yng Nghymru baratoi'u cyfrifon yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Roedd y safonau hyn yn golygu llawer o waith ychwanegol i staff cyllid yr Awdurdod ond, er gwaethaf hyn, paratowyd y cyfrifon erbyn y dyddiad cau statudol.

Roedd ychydig o faterion yn codi o'r archwiliad o'r cyfrifon a hysbysais yr aelodau amdanynt yn adroddiad yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol adeg cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon.

Roedd fy adolygiad o drefniadau'r Awdurdod i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi'i seilio ar waith archwilio'r cyfrifon ac yn dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan y Mesur Llywodraeth Leol (2009). Caiff prif ganfyddiadau'r gwaith olaf hwn eu nodi yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol.

Hoffwn hefyd dynnu'ch sylw at y canlynol:

- Roedd Datganiad Llywodraethu Blynyddol (y cyfeiriais ato pan roddwyd y farn archwilio) yn ofyniad newydd ar gyfer 2010-11. Er i'r Datganiad gael ei gwblhau yn unol â'r canllawiau perthnasol, mae lle i wella arno yn y dyfodol. Yn arbennig, wrth adrodd am adolygiad yr Awdurdod o effeithiolrwydd ei drefniadau llywodraethu fel rhan o'i fusnes arferol yn ystod y flwyddyn. Bydd fy nhîm ymgysylltu'n trafod y mater hwn ymhellach gyda swyddogion i adeiladu ar flwyddyn gyntaf y gofyniad newydd hwn.

Cyflwynais dystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau archwilio'r cyfrifon ar 29 Medi 2011.

Disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2010-11 fod yn unol â'r swm a nodir yn yr Amlinelliad Archwilio Blynyddol.

Anthony Barrett

Archwilydd Penodedig

# Atodiad 4

# Amcanion gwella a hunanasesiad Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

## Amcanion gwella'r Awdurdod

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyflwyno cynlluniau i wella'i swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Rhaid cyhoeddi'r cynlluniau hyn bob blwyddyn yn ogystal ag 'amcanion gwella' penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Awdurdod yn bwriadu'u cyflawni er mwyn gwella. Mae'n rhaid i'r Awdurdod wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

Cyhoeddodd yr Awdurdod ei amcanion gwella ar gyfer 2010-11 yn ei *Adroddiad Blynyddol a Chynllun Gwelliant ar gyfer 2010/11 – mis Ebrill, a'i amcanion gwella ar gyfer 2011-12 yn Cynllun Busnes a Gwelliant 2011-12*. Gellir eu gweld ar wefan yr Awdurdod yn http://www.eryri-npa.gov.uk  Dyma'r amcanion:

| Amcanion gwella 2010-11 | Amcanion gwella 2011-12 |
|---|---|
| 1 Parhau i weithredu'n effeithiol ac yn effeithlon gan ddarparu gwasanaeth i bawb o fewn yr adnoddau sydd ar gael iddo.<br>2 Gwella nodweddion arbennig y Parc (fel y'u diffinnir yn yr adroddiad ar Gyflwr y Parc).<br>3 Gwasanaethau effeithiol sy'n canolbwyntio ar y dinesydd i bawb.<br>4 Sicrhau bod y gwasanaeth cynllunio yn darparu gwasanaeth ymatebol, cyson o ansawdd uchel sy'n darparu gwerth am arian.<br>5 Mwy o gyfleoedd mynediad o ansawdd uchel i bobl o bob gallu fwynhau tir a dŵr y Parc. | 1 Bydd gan bobl ddealltwriaeth well ynghylch pam a phryd y cymerir camau gorfodaeth.<br>2 Bydd yn cymryd llai o amser i ddatrys achosion datblygu diawdurdod honedig.<br>3 Bydd gan y cynghorau cymuned a'n rhanddeiliaid allweddol ddealltwriaeth well o'r hyn y mae'r Awdurdod yn ei wneud a nodweddion arbennig y Parc.<br>4 Bydd y trefniadau rheoli perfformiad yn fwy effeithiol i sicrhau ein bod yn cynnal safon ein gwasanaeth yn ystod cyfnod lle bo adnoddau'n lleihau.<br>5 Bydd gan staff ac aelodau ddealltwriaeth well o sut y mae eu gwaith yn cyfrannu at gyflawni blaenoriaethau gwasanaeth ac amcanion gwella'r Awdurdod.<br>6 Bydd y rhan fwyaf o ymwelwyr â'r Canolfannau Croeso'n fodlon iawn â'r hyn sydd gan y canolfannau i'w gynnig o ran dewis ac ansawdd y nwyddau, y wybodaeth a'r gwasanaeth i gwsmeriaid.<br>7 Mae'r ystod a'r math o wasanaethau sydd ar gael yn electronig yn unol ag anghenion y cyhoedd.<br>8 Bydd defnyddwyr y gwasanaeth electronig yn fodlon iawn â'u profiad.<br>9 Bydd gan bobl ddealltwriaeth well o'r polisïau cynllunio yn y Cynllun Datblygu Lleol. |

## Hunanasesiad o berfformiad Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Mae hunanasesiad yr Awdurdod o'i berfformiad i'w weld yn ei *Adroddiad Blynyddol a Chynllun Gwelliant ar gyfer 2010/11*, sydd ar y wefan yn www.eryri-npa.gov.uk

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk